Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol: canllaw byr i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16



OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG36354 ISBN Digidol: 978 1 78964 440 1

# Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol: canllaw byr i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16

## Cyflwyniad

Profwyd bod prosesau pontio llwyddiannus i ddysgwr yn arwain at gynnydd mawr mewn cyfraddau cadw a chamu ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy yn y pen draw. Mae rheoli data a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn elfennau allweddol o brosesau pontio llwyddiannus o'r fath  a system addysg wedi'i chydgysylltu o gwmpas anghenion y dysgwr. Lle mae rhannu gwybodaeth yn digwydd fel mater o drefn, mae sefydliadau derbyn yn gallu cynllunio ar gyfer addysg barhaus dysgwyr trwy ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol, eu cryfderau a'u gwendidau, a'u hanghenion cymorth . Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y dysgwr wedi ei gofrestru ar y cwrs cywir ac yn derbyn y cymorth angenrheidiol o'r diwrnod cyntaf un.

Mae'n rhaid i brosesau pontio gael eu cynllunio'n briodol mewn modd amserol gan roi sylw arbennig i anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed, fel y rheini a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio, plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal (LAC/CL) a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn gofyn am weithio'n systematig mewn partneriaeth er mwyn rheoli'r broses bontio, fel bod pob dysgwr yn derbyn yr un lefel o gymorth, ble bynnag maen nhw'n dewis astudio a dysgu. Mae hyn yn cynnwys:

1. Cydweithio a chydweithredu rhwng yr holl bartneriaid er mwyn i ddysgwyr gael mynediad at ddysgu a chymorth perthnasol (personol a gyrfaoedd).
2. Darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd fel bod dysgwyr yn ymwybodol o'r *holl* lwybrau dilyniant sydd ar gael iddynt.
3. Gwrando ac ymateb i anghenion dysgwyr.
4. Datblygu cysylltiadau trawsffiniol i sicrhau darpariaeth y tu allan i'r sir a sicrhau pontio llyfn i ddysgwyr y tu allan i'r sir.
5. Datblygu protocol pontio y mae pob partner yn ymrwymo iddo sy'n nodi:
    a. Rolau a chyfrifoldebau
    b. Trosglwyddo gwybodaeth
    c. Trosglwyddo data a phrotocolau rheoli
6. Olrhain a monitro pontio a dilyniant.
7. Datblygu strategaeth gyfathrebu.

## Y sefyllfa bresennol

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a cholegau Brotocolau Rhannu Gwybodaeth (ISPs) a chytundebau rhannu data ar waith, ac o ganlyniad mae yna rai arferion rhannu data effeithiol yn digwydd ledled Cymru. Fodd bynnag, mae gormod o ddarparwyr ôl-16 yn dal i ddweud nad ydynt yn derbyn gwybodaeth fel mater o drefn am ddysgwyr y maen nhw'n ystyried eu cofrestru o ysgolion. Yn lle hynny, maen nhw'n troi at gasglu'r wybodaeth hon o'r newydd gan y dysgwyr eu hunain sy'n golygu:

a) Dyblygu ymdrech;
b) Gwallau posib;
c) Oedi wrth nodi anghenion cymorth dysgwyr;
d) Y posibilrwydd bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar raglenni dysgu amhriodol (naill ai rhai sy'n ormod o her neu rhai sy'n ddim digon o her);
e) Aneffeithlonrwydd yn y system gyffredinol ar gyfer rheoli data, gan gynnwys y potensial o dorri diogelwch data.

### *Adnoddau Defnyddiol*

Diogelu data ar gyfer ysgolion a cholegau, 2018

Gwybodaeth, canllawiau a thempledi i gynorthwyo ysgolion i roi strategaeth rheoli gwybodaeth Llywodraeth Cymru (IMS) ar waith

Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru

Hysbysiad Preifatrwydd Dysgu Gydol Oes Cymru

Rheoliadau ynghylch adrodd am wybodaeth am yr ysgol ac am ddisgyblion: canllawiau cryno i ysgolion, 2011

Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion, 2006

Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

## Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) (2011)

O dan reoliad 5(3) o Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016), gall sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg neu hyfforddiant eraill ofyn am **gofnod addysgol** unrhyw ddysgwr y maen nhw'n ystyried ei dderbyn a **rhaid** i'r ysgol ei ddarparu o fewn 15 diwrnod ysgol, yn rhad ac am ddim.

Mae'r **cofnod addysgol** yn golygu unrhyw gofnod o wybodaeth, gan gynnwys **cofnod cwricwlaidd** disgybl:

a) sy'n cael ei brosesu gan neu ar ran corff llywodraethu, neu athro, mewn unrhyw ysgol;
b) sy'n ymwneud ag unrhyw berson sydd neu sydd wedi bod yn ddisgybl yn yr ysgol;
c) sy'n deillio o neu a gyflenwyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol neu athro neu weithiwr yr ysgol, heblaw am wybodaeth a gaiff ei phrosesu gan athro ar gyfer defnydd yr athro ei hun yn unig.

Mae manylion yr hyn mae'n rhaid ei gofnodi yn y **cofnod cwricwlaidd** i'w gweld yn yr Atodlen i Reoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011. Am restr lawn o'r wybodaeth a gynhwysir yn y cofnod cwricwlaidd gweler yr Atodlen lawn yn Atodiad 2.

Crynhoir y wybodaeth fwyaf perthnasol yn yr Atodlen ar gyfer darparwyr ôl-16 isod ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Manylion cryno am gyflawniadau'r disgybl mewn unrhyw faes dysgu, pwnc neu weithgaredd, gan gynnwys sgiliau a galluoedd a chynnydd cyffredinol yn yr ysgol yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef e.e. gwybodaeth am ymddygiad a lles cyffredinol y disgybl. **Ni** ddylai gynnwys unrhyw werthusiad o gyflawniadau'r disgybl (gweler paragraff 7(1) o Ran 4 yr Atodlen i Reoliadau 2011).
- Y pwyntiau cyfartalog a sgoriwyd gan y disgybl mewn cymwysterau cymeradwy (gweler paragraff 6(2) o Ran 3 yr Atodlen i Reoliadau 2011.
- Manylion unrhyw bwnc y mae'r disgybl wedi'i eithrio ohono (gweler paragraff 5(2) o Ran 2 yr Atodlen i Reoliadau 2011).
- Crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef sy'n dangos nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig, a phresenoldeb posib (gweler paragraff 7(4) o Ran 4 yr Atodlen i Reoliadau 2011).

### *Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)*

Mae'r GDPR yn gyfraith newydd ledled Ewrop sy'n disodli Deddf Diogelu Data 1998. Mae'n nodi sut mae angen i sefydliadau, gan gynnwys darparwyr addysg, ymdrin â data personol y maent yn ei brosesu (h.y. storio, mynediad a/neu gasglu).

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg byr o'r dyletswyddau statudol y mae'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â nhw o ran rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gyda darparwyr ôl-16. Nid yw'n cynnwys pob un dim ac nid yw'n ymdrin â dulliau casglu a rhannu. Gall darparwyr gasglu a rhannu gwybodaeth am ddysgwyr ym mha ffordd bynnag sy'n gweddu orau i'w hanghenion busnes, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r GDPR. Cynghorir darparwyr i gael eu cyngor a'u sicrwydd cyfreithiol eu hunain ynghylch y materion hyn.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi creu canllawiau i helpu sefydliadau i gydymffurfio â'r GDPR. Mae'r canllawiau'n ateb cwestiynau cyffredin, gan drafod pynciau yn cynnwys pa wybodaeth y mae'r GDPR yn berthnasol iddi a'r camau y gall sefydliadau eu cymryd i gydymffurfio â'r rheolau newydd. Maent yn darparu gwybodaeth hefyd am ble gall sefydliadau gael cymorth a chefnogaeth bellach.

| Rhestr wirio a awgrymir ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant | |
|---|---|
| **Pob darparwr** | ❑ Oes gennych chi brotocol pontio i ddysgwyr? |
| | ❑ Ydy pob aelod o staff addysgu a chymorth yn gwybod am y cymorth pontio sydd ar gael i ddisgyblion / dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu ofynion cymorth penodol eraill? |
| | ❑ Ydy data eich System Gwybodaeth Reoli (MIS) yn gyfoes ac yn gywir? |
| | ❑ Ydych chi wedi adolygu / adnewyddu eich Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI / Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP)? |
| | ❑ Ydych chi wedi rhoi rhybudd preifatrwydd i bob dysgwr / disgybl (Ysgolion, Colegau)? |
| | ❑ Ydy'r corff llywodraethu'n derbyn ac yn craffu ar wybodaeth ar effeithiolrwydd prosesau pontio dysgwyr? |
| | ❑ Ydych chi wedi gofyn i ddysgwyr a'u rhieni / gwarcheidwaid am adborth ar eu cyfnodau pontio? |
| | ❑ Oes Marc Gyrfa Cymru gennych chi sy'n cydnabod gwelliant parhaus o fewn fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith Llywodraeth Cymru? |
| **Ysgolion** | ❑ Ydych chi'n darparu data i'ch partneriaid ôl-16 fel mater o drefn, yn unol â gofynion Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011? |
| | ❑ Ydych chi'n cynghori disgyblion ynghylch yr holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddynt? |
| | ❑ Ydych chi'n casglu ac yn gwerthuso adborth gan bartneriaid ôl-16 ar effeithiolrwydd prosesau pontio dysgwyr, gan gynnwys trosglwyddo data, er mwyn nodi meysydd i'w gwella? |
| | ❑ Ydych chi'n defnyddio data cyrchfannau i fonitro llwyddiant ac effeithiolrwydd prosesau pontio? |
| **Darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16** | ❑ Oes gennych chi raglen gydgysylltiedig o waith allgymorth wedi'i chymeradwyo gan y Rhwydwaith 14-19? |
| | ❑ Ydych chi'n casglu data dysgwyr yn systematig o ysgolion bwydo / awdurdodau lleol? |
| | ❑ Ydych chi'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi'u teilwra sy'n ystyried cyrhaeddiad blaenorol, diddordebau a galluoedd dysgwyr i'w helpu i ddewis cyrsiau priodol y maen nhw'n fwy tebygol o lwyddo ynddynt? |
| | ❑ Ydych chi'n darparu data ar gyflawniad a chynnydd i ysgolion blaenorol dysgwyr? |

# Atodiad 2 – Atodlen i Reoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

Rheoliad 3(3)

YR ATODLEN

GWYBODAETH AM DDISGYBLION UNIGOL

## RHAN 1

### Cyfnod Sylfaen

**1.**—(1) Canlyniadau unrhyw asesiad a gynhelir yn unol â'r trefniadau asesu a bennwyd gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013.

(2) Crynodeb byr o gynnydd y disgybl mewn perthynas â'r rhaglenni addysgol ychwanegol a'r rhaglenni astudio ychwanegol y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Orchymyn Rhaglenni Addysgol a Rhaglenni Astudio 2013.

### Disgyblion yng nghyfnod allweddol dau

**2.**—(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl mewn pwnc a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel gyrhaeddiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad ym mlwyddyn olaf cyfnod allweddol dau mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg.

(2) Datganiad byr ynghylch a yw'r disgybl wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd.

(3) Bydd disgybl yng nghyfnod allweddol dau yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd os yw'n cyflawni lefel CC 4 neu'n uwch na hynny mewn—

(a) Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, yn ôl y cwricwlwm a ddysgwyd i'r disgybl;

(b) mathemateg; ac

(c) gwyddoniaeth.

(4) Disgrifiad byr o'r hyn y mae canlyniadau'r disgybl, yr adroddwyd arnynt yn unol ag is-baragraff (1), yn ei ddangos am gynnydd y disgybl yn y pynciau perthnasol yn unigol ac mewn perthynas â phlant eraill yn yr un flwyddyn o'r cyfnod allweddol, a hwnnw'n ddisgrifiad sy'n tynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol sydd gan y disgybl.

### Disgyblion yng nghyfnod allweddol tri

**3.**—(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl mewn pwnc a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad ym mlwyddyn olaf cyfnod allweddol tri mewn—

(a) Cymraeg ail iaith a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Saesneg, yn unol â'r cwricwlwm a ddysgwyd i'r disgybl;

(b) mathemateg;

(c) gwyddoniaeth; ac

(ch) y pynciau perthnasol.

(2) Datganiad byr ynghylch a yw'r disgybl wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd.

(3) Bydd disgybl yng nghyfnod allweddol tri yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd os yw'n cyflawni lefel CC 5 neu uwchlaw hynny mewn—

(a) Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, yn ôl y cwricwlwm a ddysgwyd i'r disgybl;

(b) mathemateg; ac

(c) gwyddoniaeth.

(4) Disgrifiad byr o'r hyn y mae canlyniadau'r disgybl, yr adroddwyd arnynt yn unol ag is-baragraff (1), yn ei ddangos am gynnydd y disgybl yn y pynciau perthnasol yn unigol ac mewn perthynas â phlant eraill yn yr un flwyddyn o'r cyfnod allweddol, a hwnnw'n ddisgrifiad sy'n tynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol sydd gan y disgybl.

### Disgyblion yng nghyfnod allweddol pedwar

**4.**—(1) Enw unrhyw bwnc y cofnodwyd enw disgybl ar ei gyfer o ran cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd a'r radd (os oes un) a gafwyd.

(2) Nifer cyfartalog y pwyntiau a gafodd y disgybl mewn arholiadau pwnc o'r fath y cofnodwyd ei enw ar eu cyfer.

(3) At ddibenion y paragraff hwn rhaid penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch y pwyntiau a dyrannwyd i bob cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd yn unol â'r gofrestr.

## RHAN 2

### Disgyblion mewn unrhyw gyfnod allweddol

**5.**—(1) O ran yr holl bynciau sylfaen, manylion byr am gyflawniadau'r disgybl mewn perthynas â phob pwnc gan dynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol, ar y cyd, pan fo'r manylion yn cynnwys lefelau, â datganiad sy'n dangos a yw'r lefelau hynny wedi eu penderfynu'n unol â'r asesiadau statudol ai peidio.

(2) Manylion unrhyw bwnc y mae'r disgybl yn esempt rhagddo.

## RHAN 3

### Disgyblion y cofnodwyd eu henwau ar gyfer cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd

**6.**—(1) Enw unrhyw bwnc y cofnodwyd enw'r disgybl ar ei gyfer mewn cysylltiad â chymhwyster perthnasol a gymeradwywyd a'r radd (os oes un) a gafwyd.

(2) Nifer cyfartalog y pwyntiau a gafodd y disgybl mewn arholiadau pwnc o'r fath y cofnodwyd ei enw ar eu cyfer.

(3) At ddibenion y paragraff hwn rhaid penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch y pwyntiau a dyrannwyd i bob cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd yn unol â'r gofrestr.

## RHAN 4

### Pob disgybl

**7.**—(1) Manylion byr am gyflawniadau'r disgybl mewn unrhyw faes dysgu, unrhyw bwnc neu weithgaredd, gan gynnwys Tystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, a'r rheini'n gyflawniadau nas crybwyllir yn unman arall yn yr Atodlen hon sy'n rhan o'r cwricwlwm ysgol ac am sgiliau a galluoedd y disgybl ac ynghylch cynnydd cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.

(2) Manylion y trefniadau y caniateir trafod yr adroddiad odanynt gydag athrawon y disgybl gan riant y disgybl neu, yn achos disgybl sy'n 18 oed neu drosodd, gan y disgybl.

(3) Manylion unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd neu unrhyw uned neu gredyd tuag at gymhwyster o'r fath a gafodd y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi ac na chyfeiriwyd ato yn rhywle arall yn yr Atodlen hon.

(4) Crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef yn dangos nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig (o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**12**)) a nifer y presenoldebau posibl.

## RHAN 5

### Disgyblion ar ddiwedd y cyfnod sylfaen

8.-(1) Mewn perthynas â phob maes dysgu perthnasol, disgrifiad byr o ddeilliant cyfnod sylfaen a gyrhaeddodd y disgybl ym mhob un o'r meysydd dysgu hynny, ym mlwyddyn olaf y cyfnod sylfaen.

(2) Mewn perthynas â phob un o'r meysydd dysgu eraill, datganiad byr o lefel cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan y disgybl ym mhob un o'r meysydd dysgu hynny ym mlwyddyn olaf y cyfnod sylfaen.

(3) Datganiad byr ynghylch cynnydd y disgybl yn ystod y cyfnod y bu’r disgybl yn y cyfnod sylfaen mewn perthynas â’r rhaglenni addysgiadol y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 1 o Orchymyn Rhaglenni Addysgol a Rhaglenni Astudio 2013.

Disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol dau a thri

9.-(1) Datganiad byr ynghylch cynnydd y disgybl yn ystod y cyfnod y bu’r disgybl yng nghyfnod allweddol dau mewn perthynas â’r rhaglenni addysgiadol y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 1 o Orchymyn Rhaglenni Addysgol a Rhaglenni Astudio 2013.

(2) Datganiad byr ynghylch cynnydd y disgybl yn ystod y cyfnod y bu’r disgybl yng nghyfnod allweddol tri mewn perthynas â’r rhaglenni addysgiadol y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 1 o Orchymyn Rhaglenni Addysg a Rhaglenni Addysgol 2013.